

Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor

Datganiad Preifatrwydd Data Myfyrwyr

1. Rhagarweiniad

Wrth gyflawni ei swyddogaethau a'i weithgareddau amrywiol, mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor yn casglu gwybodaeth gan unigolion a sefydliadau allanol ac yn cynhyrchu llawer o ddata amrywiol sy'n cael ei gofnodi a'i gadw.

Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor yw'r rheolydd data mewn perthynas â'ch gwybodaeth, fel y caiff hynny ei ddiffinio yn Neddf Diogelu Data 2018 ac mae'r Undeb wedi ymrwymo i ddiogelu eich hawliau, yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Mae'r datganiad hwn yn esbonio sut mae Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel "Undeb y Myfyrwyr") yn ymdrin â'ch gwybodaeth bersonol ac yn ei defnyddio tra byddwch yn fyfyrwr. Mae Undeb y Myfyrwyr wedi ymrwymo i warchod eich gwybodaeth bersonol a bod yn agored ynghylch pa wybodaeth sydd ganddo.

Mae bod â gwybodaeth am ein haelodau'n ein galluogi i deilwra eich profiad fel myfyrwyr, gwneud penderfyniadau mwy gwybodus, cyfathrebu â chi yn effeithiol a'ch cynrychioli hyd eithaf ein gallu.

2. Pa wybodaeth rydyn ni'n ei chasglu amdanoch chi ac o ble y daw'r wybodaeth honno?

2.1. Pan fyddwch chi'n ymaelodi

Pan fyddwch yn cofrestru ym Mhrifysgol Bangor, bydd y Brifysgol yn rhannu eich data gydag Undeb y Myfyrwyr lle bo angen er budd cyfreithlon Undeb y Myfyrwyr neu er eich budd chi, er mwyn gallu cymryd rhan mewn prosesau democrataidd, elwa ar wasanaethau cynrychiolaeth, ymuno â chlybiau chwaraeon a chymdeithasau a derbyn gohebiaeth. Byddwch yn awtomatig yn dod yn aelod o Undeb y Myfyrwyr wrth gofrestru. Lle rhoddwyd caniatâd, bydd y Brifysgol hefyd yn rhannu data ethnigrwydd i alluogi Undeb y Myfyrwyr i fonitro a hyrwyddo ymgysylltiad myfyrwyr duon a myfyrwyr o leiafrifoedd ethnig. Mae cytundeb rhannu data'n llywodraethu'r broses hon ac yn hwyluso rhwymedigaethau'r Brifysgol o dan adran 22 Deddf Addysg 1994, sydd ar gael yma - <https://www.bangor.ac.uk/planning/information-sharing.php.cy>

Pan fydd y Brifysgol yn rhoi'r data hwn inni, byddwn yn dod yn gyfrifol amdano a byddwn yn ei ddefnyddio fel ein cofnod canolog eich bod yn aelod. Os ydych yn dymuno optio allan o fod yn aelod o undeb y myfyrwyr, dylid gwneud hynny'n unol â'r is-ddeddfau. Mae'r is-ddeddfau i'w gweld yma <https://www.undebbangor.com/voice/gm/papers/>

2.2. Pan fyddwch chi'n rhoi'r wybodaeth i ni yn uniongyrchol

Gallwch chi roi eich gwybodaeth i ni er mwyn; ymuno â chlwb, cymdeithas, project gwirfoddoli; cymryd rhan yn un o'n digwyddiadau; defnyddio ein gwasanaeth cynghori; prynu ein cynnyrch; neu er mwyn cyfathrebu â ni. Pan fyddwch yn rhoi'r wybodaeth hon i ni, rydym ni'n cymryd cyfrifoldeb dros ofalu am yr wybodaeth a byddwn yn croesgyfeirio rhwng y data hwn a data'r Brifysgol.

2.3. Pan fyddwch chi'n rhoi'r wybodaeth i ni yn anuniongyrchol

Efallai y bydd sefydliadau sy'n annibynnol arnom yn rhannu eich gwybodaeth â ni, megis Prifysgol Bangor neu gwmnïau y byddwn ni'n partneru â nhw megis cwmnïau Taliadau. Bydd ganddynt eu

Polisi Preifatrwydd eu hunain y gallwch chi edrych arnynt i ddeall yn llawn sut y byddant yn prosesu eich data.

2.4. Pan fyddwch chi'n rhoi caniatâd i sefydliadau eraill rannu gwybodaeth amdanoch

Efallai y byddwn yn cyfuno'r wybodaeth a roesoch chi i ni gyda'r wybodaeth sydd ar gael o ffynonellau allanol. Bydd hyn yn ein galluogi i fod â gwell dealltwriaeth o'n haelodau er mwyn gwella'r gwasanaethau a roddwn i chi.

3. Rydym yn casglu eich gwybodaeth wrth i chi ddefnyddio ein gwefan

Fel y rhan fwyaf o wefannau, rydym yn defnyddio "cwcis" i'n helpu i wella ein gwefan, a'ch defnydd chi ohoni. Ffordd o storio gwybodaeth amdanoch chi a'ch dewisiadau ar yriant caled y cyfrifiadur yr ydych yn ei ddefnyddio yw cwcis. Ffeiliau testun bychan ydynt y mae gwefannau yn eu trosglwyddo i'ch cyfrifiadur, i'ch ffôn neu i'ch tabled. Maent yn golygu bod modd i chi ryngweithio â'r gwefan yn gyflymach ac yn haws, er enghraifft trwy lenwi eich enw a'ch cyfeiriad yn awtomatig mewn meysydd testun.

Gall y math o ddyfais rydych chi'n ei defnyddio i gael mynediad at ein gwefan a gosodiadau'r ddyfais honno roi gwybodaeth i ni am eich dyfais megis pa fath o ddyfais ydyw neu pa system weithredu yr ydych yn ei defnyddio. Bydd gan wneuthurwr eich dyfais neu ddarparwr y system weithredu ragor o fanylion am ba wybodaeth y mae eich dyfais yn ei darparu i ni.

3.1 Cwcis sy'n seiliedig ar sesiwn

Mae cwcis sy'n seiliedig ar sesiwn yn cael eu dileu pan fyddwch chi'n cau eich porwr. Dau gwci sy'n hollol angenrheidiol ar gyfer gweithredu'r wefan wrth i chi fewngofnodi yw 'Session ID cookie' a'r 'Aspxauth Cookie', maent, ill dau, yn gwci sy'n seiliedig ar sesiwn, oni bai eich bod yn dewis bod y sesiwn yn cadw eich manylion, yna bydd yr wybodaeth yn cael ei chadw am dri mis. Mae'r cwcis eraill sy'n seiliedig ar sesiwn yn;

- Gweithredu mecanwaith ataliol yn erbyn ymosodiadau Twyll Ceisiadau Traws-safle
- Mesur yr amser mae'n ei gymryd i lwytho'r dudalen we gyfan.
- Cadw'r math o gysylltiad a ddefnyddiwyd i gyrraedd y safle (Caiff hyn ei ddefnyddio gan Google Analytics)

3.2 Cwcis parhaus

Mae cwci parhaus yn fwy tebygol o gasglu swm mwy o wybodaeth bersonol, megis ymddygiad pori os yw hynny wedi ei ffurfweddu, a gellir ei ddileu â llaw neu caiff ei ddileu ar y dyddiad terfynu. Caiff ein cwcis parhaus ni eu defnyddio gan Google Analytics i

- bennu ymwelwyr unigryw a chipio data amdanynt a pha mor aml y maent yn edrych ar gynnwys ar y safle (cedwir y data hwn am 2 flynedd)
- Sefydlu sesiwn ar y safle a pharhau â sesiwn flaenorol (cedwir y data am 30 munud)

4. Beth sy'n digwydd pan fyddwch chi'n prynu cynnyrch oddi wrthym?

I wneud archeb ar-lein bydd angen i chi fewngofnodi ar ein gwefan yn defnyddio eich manylion mewngofnodi myfyriwr; mae hyn yn golygu bod eich trafodyn wedi'i gysylltu â'r manylion sydd gennym amdanoch chi (gweler adran 5). Unwaith y bydd archeb wedi ei gwneud, gallem gysylltu â chi trwy e-bost i gadarnhau manylion eich archeb ac unwaith eto pan fydd eich archeb wedi cael ei derbyn a'i danfon neu pan fydd yn barod i'w chasglu. Os bydd angen inni gysylltu â chi am unrhyw

reswm ynglŷn â'ch archeb, byddwn yn defnyddio'r cyfeiriad e-bost sy'n gysylltiedig â'ch cyfrif, neu'r rhif ffôn pan fydd wedi ei ddarparu. Os byddwch chi'n ymweld â'r siop yn adeilad undeb y myfyrwyr, byddwn yn gofyn i chi am eich enw a'ch rhif myfyriwr sy'n ein galluogi i olrhain y cynnyrch rydych chi wedi'i brynu er mwyn gallu darparu gwell safonau gwasanaeth i gwsmeriaid a datblygu'r amrywiaeth o gynnyrch yr ydym yn ei gynnig i fyfyrwyr.

5. Pa ddata personol yr ydym yn ei gasglu a sut yr ydym yn ei ddefnyddio

Os ydych chi'n fyfyrwr ym Mhrifysgol Bangor ac felly'n aelod o undeb y myfyrwyr, bydd yr wybodaeth ganlynol y byddwch chi wedi ei darparu wrth gofrestru yn cael ei rhannu â ni gan y Brifysgol:

- Rhif Myfyriwr (rhif 500)
- Enw defnyddiwr
- Enw Llawn
- Adran
- Rhaglen a Rhan
- Dyddiad Gadael Disgwyliedig
- Lefel Rhaglen
- Dyddiad Geni
- Rhywedd
- Cenedligrwydd
- Cyfeiriad Cartref
- Cyfeiriad yn ystod y Tymor
- Cyfeiriad E-bost Prifysgol
- Cyfeiriad E-bost Cartref
- Rhif Ffôn Symudol
- Manylion Cyswllt mewn Argyfwng
- Dewis Iaith

Bydd hyn wedyn yn ein galluogi i roi'r gwasanaeth gorau posibl i chi ynghyd â gweinyddiad a chyfathrebu rhagorol. Hefyd, pan fyddwch yn mynychu digwyddiad, yn ymuno â grŵp myfyrwyr neu'n defnyddio un o'n gwasanaethau, efallai y byddwn yn gofyn am wybodaeth ychwanegol megis: "Gwybodaeth Personol" sy'n ffordd o'ch adnabod ac sy'n ein galluogi ni i gysylltu â chi. Byddwn hefyd yn gofyn am wybodaeth am eich cwrs neu am eich ieuchyd os ydych chi'n cymryd rhan mewn gweithgaredd y byddwn ni yn darparu yswiriant i chi ar ei gyfer (e.e. Chwaraeon, Cymdeithasau); efallai y byddwn yn gofyn i chi am fanylion eich perthynas agosaf at ddibenion cysylltu mewn argyfwng, ac am fanylion unrhyw gyflyrau meddygol a allai effeithio ar eich gallu i gymryd rhan yn y gweithgaredd a allai beri risg i chi neu bobl eraill.

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth at y dibenion canlynol:

- Gweinyddu eich aelodaeth o Undeb y Myfyrwyr.
- Gweinyddu gwasanaethau a gweithgareddau Undeb y Myfyrwyr, megis Clybiau Chwaraeon, Cymdeithasau, projectau Gwirfoddoli a Chynrychiolwyr Cwrs.
- Cynnal etholiadau democrataidd
- Cynnal ymchwil ar ddemograffeg, diddordebau ac ymddygiad ein haelodau cofrestredig.

- Anfon newyddlenni e-bost atoch oddi wrth Undeb y Myfyrwyr a manylion am ddigwyddiadau i fyfyrwyr
- Gwella cynnwys gwefan Undeb y Myfyrwyr
- Cyflawni gweithgarwch marchnata a hyrwyddo
- Anfon gwybodaeth atoch chi a fyddai'n ddefnyddiol i chi yn ein barn ni, megis manylion am gynnwch, gwasanaethau, digwyddiadau a chyfleoedd gwaith.
- Gwirio pwy yw myfyrwyr

Gallwn drosglwyddo eich gwybodaeth bersonol i drefnwyr Clybiau Chwaraeon, Cymdeithasau neu wasanaethau eraill Undeb y Myfyrwyr, os ydych yn dewis ymuno â nhw.

Rydym hefyd yn casglu gwybodaeth ddienw at ddibenion ystadegol. Nid yw gwybodaeth ddienw yn gysylltiedig â'ch gwybodaeth bersonol ac ni ellir ei defnyddio i'ch adnabod.

Os prynwch rywbeth ar ein gwefan, gofynnir i chi ddarparu manylion cerdyn debyd / credyd. Caiff hyn ei brosesu'n allanol gan ein cwmni taliadau, Sage Pay.

Gallwn hefyd ddefnyddio eich data i'n helpu i lunio proffil o'n haelodau a thargedu ein gohebiaeth. Mae hyn yn caniatáu i ni ddefnyddio ein hadnoddau mewn modd effeithiol. Er enghraifft, pe bai arnom eisiau cyfathrebu ynglŷn â mater sy'n effeithio ar fyfyrwyr ôl-radd, dim ond â myfyrwyr ôl-radd y byddwn eisiau cysylltu neu efallai y byddwn eisiau gweld ym mha ysgol mae'r gyfran uchaf o fyfyrwyr sy'n pleidleisio yn ein hetholiadau. Defnyddir eich data at y diben hwn i nodi bras ystadegau yn unig ac nid i'ch adnabod chi fel unigolyn.

6. Sut rydym yn cadw eich data yn ddiogel a phwy sydd â mynediad ato

Gellir rhannu data personol yr ydym ni yn ei gasglu a'i brosesu gyda gweithwyr, gwirfoddolwyr neu gontractwyr undeb y myfyrwyr, a hynny dan amodau llym. Pan fyddwn yn caniatáu mynediad at eich gwybodaeth, bydd gennym bob amser reolaeth lawn dros yr hyn y byddant yn ei weld, yr hyn y mae ganddynt ganiatâd i'w wneud â'r wybodaeth ac am ba hyd y gallant ei weld. Nid ydym yn gwerthu nac yn rhannu eich gwybodaeth bersonol er mwyn i sefydliadau eraill ei defnyddio.

Rydym yn adolygu'n rheolaidd pwy sydd â mynediad at yr wybodaeth amdanoch chi sydd yn ein meddiant i sicrhau mai dim ond staff, gwirfoddolwyr neu gontractwyr sydd wedi cael hyfforddiant priodol sydd â mynediad at eich gwybodaeth.

Efallai y bydd angen i ni ddatgelu eich manylion i'r heddlu, i gyrff rheoleiddio neu i gynghorwyr cyfreithiol os bydd angen.

Fel arall, dim ond os oes gennym ganiatâd eglur a gwybodus gennych chi y byddwn yn rhannu eich data.

7. Marchnata a Chyfathrebu

Mae'r Brifysgol yn rhannu manylion personol pob myfyriwr gydag Undeb y Myfyrwyr i sicrhau eich bod yn gallu pleidleisio a chael mynediad at wasanaethau Undeb y Myfyrwyr. Mae hyn yn galluogi'r Brifysgol i gyflawni ei dyletswydd o ran cefnogi gweithrediad Undeb y Myfyrwyr. Mae trosglwyddo gwybodaeth rhwng Prifysgol Bangor ac Undeb y Myfyrwyr wedi'i nodi'n benodol yn Natganiad Diogelu Data'r Brifysgol.

Oni bai eich bod wedi optio allan, yn achlysurol trwy gydol eich cyfnod yn y Brifysgol, bydd Undeb y Myfyrwyr yn cyfathrebu â chi trwy e-bost. Gwneir hynny yn bennaf er mwyn rhoi gwybod i chi am y gwasanaethau a ddarperir yn unig gan Undeb y Myfyrwyr yn unol ag aelodaeth y myfyrwyr. Os hoffech gael eich tynnu oddi ar restr bostio, gallwch ddewis peidio â derbyn y math hwnnw o ohebiaeth trwy ddefnyddio'r ddolen dad-danysgrifio yn yr e-bost. Gallwch olygu a gweld eich manylion cyswllt trwy fewngofnodi i'r wefan a mynd i gornel dde'r sgrin.

8. Rhannu Data gyda Phartneriaid

Dim ond os gwneir cais dilys a / neu pan fo hynny'n ofynnol trwy gyfraith, megis trwy orchymyn llys, y rhennir eich data gydag asiantaethau allanol.

Nid oes gan Undeb y Myfyrwyr gyfrifoldeb dros reoli data personol a brosesir gan Brifysgol Bangor, sy'n llwyr gyfrifol am ei chydymffurfiaeth ei hun â deddfwriaeth diogelu data. Cynrychiolydd enwebedig y Brifysgol o ran deddfwriaeth diogelu data, a'r Swyddog Diogelu Data, yw'r Pennaeth Llywodraethu a Chydymffurfio, Gwenan Hine gwenan.hine@bangor.ac.uk.

Mae Undeb y Myfyrwyr yn cadw'r hawl i rannu gwybodaeth gyfyngedig gyda Phrifysgol Bangor fel bo'r angen at ddibenion ein buddiannau dilys, neu i sicrhau gweithrediad esmwyth gweithdrefnau ac arferion er budd y myfyrwyr. Manylir ar yr wybodaeth benodol a rennir gyda'r Brifysgol, ac ar ddiben gwneud hynny, yn ein cytundeb rhannu gwybodaeth sydd wedi ei gyhoeddi ar-lein.

Ar ben hyn, mae Undeb y Myfyrwyr yn cadw'r hawl i basio gwybodaeth angenrheidiol (gan gynnwys data personol) i'r Brifysgol mewn amgylchiadau eithriadol, megis er mwyn cynnal a gorfodi gweithdrefnau disgyblu.

Bob blwyddyn rydym yn anfon e-bost at bob myfyriwr sy'n graddio yn gofyn yn benodol am ganiatâd i basio gwybodaeth amdanynt at Adran Alumni Prifysgol Bangor. Gall myfyrwyr optio allan o'r broses; ni fydd unrhyw fyfyrwr sy'n dewis optio allan yn cael eu cynnwys yn y detholiad y byddwn yn ei anfon at yr Adran Alumni. Rydyn ni'n rhoi gwybod i'r swyddfa alumni am unrhyw Glybiau a Chymdeithasau y buodd y myfyrwyr (nad ydynt wedi optio allan) yn gysylltiedig â nhw, ynghyd â manylion cyswllt y myfyrwyr, a ddarparwyd wrth gofrestru yn y Brifysgol.

Mae trydydd parti, sef 'Memberships Solutions Limited' (MSL) yn darparu system rheoli gwybodaeth i storio a rheoli gwybodaeth bersonol ein myfyrwyr. Mae MSL yn rhwym wrth contract sy'n datgan na chaiff gwybodaeth bersonol ei haddasu, ei dileu, na'i rhannu, heb gyfarwyddyd gan Undeb Myfyrwyr Bangor, na'i defnyddio at unrhyw ddiben heblaw'r hyn a bennir gan Undeb y Myfyrwyr. Maent hefyd yn rhwym wrth contract i gydymffurfio â'r deddfwriaeth gyfredol ar ddiogelu data.

9. Cadw eich gwybodaeth bersonol yn gyfredol

Yn bennaf, rydym yn defnyddio'r data a drosglwyddir gan y Brifysgol i sicrhau bod eich data yn gywir fel y disgrifir uchod, ond byddem wir yn gwerthfawrogi pe gallech roi gwybod i ni os yw eich manylion cyswllt wedi newid.

10. Cadw eich data

Dim ond tra bo angen y byddwn yn cadw eich data personol er mwyn cyflawni'r hyn y bwriadwyd y data ar ei gyfer. Mae hyn yn cynnwys ei ddefnyddio at ddibenion cydymffurfio ag unrhyw ofynion cyfreithiol, cyfrifyddu neu adrodd. Yn gyffredinol, dim ond tra byddwch yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Bangor y byddwn yn cadw data amdanoch oni bai eich bod wedi defnyddio gwasanaeth lle eglurwyd i chi y gallai'r cyfnod hwnnw fod yn hwy.

Er mwyn pennu'r cyfnod priodol ar gyfer cadw data, rydym yn ystyried pa fath o ddata ydyw, y risg a'r niwed posibl pe câi ei ddefnyddio heb awdurdod, diben y data ac a ellir gwneud yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni trwy ddulliau eraill. Mewn rhai amgylchiadau, efallai y byddwn yn tynnu eich enw o'ch data personol fel nad yw bellach yn gysylltiedig â chi at ddibenion ymchwil neu ddibenion ystadegol (er enghraifft, er mwyn bod â chofnod o ddemograffeg pleidleiswyr), ac yn yr amgylchiadau hynny, gellid defnyddio'r wybodaeth honno am gyfnod amhenodol.

11. Deall manylion ein mesurau diogelwch

Pan fyddwn yn prosesu eich data, byddwn eisoes wedi asesu'n ofalus y cyfiawnhad cyfreithlon dros wneud hynny, y paramedrau a ddefnyddir i brosesu'r data, am ba hyd y byddwn yn cadw eich data a sut y bydd eich data'n cael ei storio'n ddiogel. Mae Undeb y Myfyrwyr yn gweithredu Polisi Diogelu Data ar gyfer ein gweithwyr a'n gwirfoddolwyr. Mae'n ofynnol i bob gweithiwr a gwirfoddolwr sy'n trin data fynychu hyfforddiant cyffredinol ar ddiogelu data ac mae trydydd partïon sy'n trin data yn cael hyfforddiant cyffredinol ar ddiogelu data. Mae'n ofynnol hefyd i drydydd partïon sy'n trin data ddarparu cyswllt sy'n bodloni gofynion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

12. Eich hawl i wybod pa ddata sydd gennym amdanoch chi, i wneud newidiadau neu i ofyn i ni roi'r gorau i ddefnyddio eich data

Mae gennych hawl i ofyn i ni roi'r gorau i brosesu eich data personol. Cysylltwch â mair.rowlands@undebbangor.com os mai dyna'r achos. Mae gennych hawl i ofyn am gopi o'r wybodaeth sydd gennym amdanoch chi. Os oes unrhyw anghysondebau yn yr wybodaeth yr ydym yn ei darparu, rhowch wybod i ni a byddwn yn eu cywiro.

13. Newidiadau i'r datganiad hwn

Gallwn newid y Datganiad Preifatrwydd hwn o dro i dro. Os byddwn yn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol o ran sut rydym yn trin eich gwybodaeth bersonol, byddwn yn gwneud hynny'n glir ar ein gwefan neu drwy gysylltu â chi yn uniongyrchol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, sylwadau neu awgrymiadau, rhowch wybod i ni trwy gysylltu â - mair.rowlands@undebbangor.com